



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2019 Rhif 500 (Cy. 116)**

**2019 No. 500 (W. 116)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES, WALES**

**Rheoliadau Pysgota Môr  
(Trwyddedau a Hysbysiadau)  
(Cymru) 2019**

**The Sea Fishing (Licences and  
Notices) (Wales) Regulations 2019**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â thrwyddedau a roddir mewn perthynas â chychod pysgota Cymreig o dan adrannau 4 a 4A o Ddeddf Pysgota Môr (Cadwraeth) 1967 (p. 84), ac â hysbysiadau sy'n amrywio, yn atal neu'n dirymu trwyddedau o'r fath. Mewn perthynas â'r trwyddedau a'r hysbysiadau hyn, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994 (O.S. 1994/2813).

These Regulations relate to licences issued in respect of Welsh fishing boats under sections 4 and 4A of the Sea Fish (Conservation) Act 1967 (c. 84), and to notices varying, suspending or revoking such licences. They revoke and replace, in relation to such licences and notices, the Sea Fishing (Licences and Notices) Regulations 1994 (S.I. 1994/2813).

Maent yn darparu ar gyfer y modd y mae trwyddedau o'r fath i gael eu rhoi, eu hamrywio, eu hatal neu eu dirymu, ac ar gyfer yr amser y mae rhoi, amrywio, atal neu ddirymu trwydded i ddod yn effeithiol.

They provide for the manner in which such licences are to be granted, varied, suspended or revoked, and for the time when such a grant, variation, suspension or revocation is to take effect.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2019 Rhif 500 (Cy. 116)**

**2019 No. 500 (W. 116)**

**PYSGODFEYDD MÔR,  
CYMRU**

**SEA FISHERIES, WALES**

Rheoliadau Pysgota Môr  
(Trwyddedau a Hysbysiadau)  
(Cymru) 2019

The Sea Fishing (Licences and  
Notices) (Wales) Regulations 2019

*Gwnaed* 6 Mawrth 2019

*Made* 6 March 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 7 Mawrth 2019

*Laid before the National Assembly for Wales*  
7 March 2019

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)*

*Coming into force in accordance with  
regulation 1(1)*

**CYNNWYS**

**CONTENTS**

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Cyfathrebu trwyddedau a hysbysiadau
4. Yr amser y mae trwyddedau wedi eu trosglwyddo a hysbysiadau wedi eu rhoi
5. Yr amser y mae trwyddedau a hysbysiadau'n cael effaith
6. Darpariaeth arbennig ar gyfer trwyddedau a hysbysiadau penodol
7. Dirymu Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Communication of licences and notices
4. Time at which licences are delivered and notices are given
5. Time at which licences and notices have effect
6. Special provision for certain licences and notices
7. Revocation of the Sea Fishing (Licences and Notices) Regulations 1994

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 4B o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

## Enwi, cychwyn a chymhwys

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) (Cymru) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran—

- (a) trwydded o dan adran 4 (trwyddedu cychod pysgota) neu 4A (trwyddedu llestri sy'n derbyn pysgod a drawslwythwyd) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(3) a roddwyd:
  - (i) mewn perthynas â chwch pysgota Cymreig; neu
  - (ii) gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chwch pysgota tramor; a

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 4B of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(1), and now vested in them(2).

## Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Sea Fishing (Licences and Notices) (Wales) Regulations 2019 and they come into force on exit day.

(2) These Regulations apply in relation to—

- (a) a licence under section 4 (licensing of fishing boats) or 4A (licensing of vessels receiving trans-shipped fish) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(3) which was granted:
  - (i) in respect of a Welsh fishing boat; or
  - (ii) by the Welsh Ministers in respect of a foreign fishing boat; and

---

(1) 1967 p.84; (“Deddf 1967”). Mewnosodwyd adran 4B gan adran 4 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992 (p.60). Diwygiwyd adran 22(2)(a) o Ddeddf 1967, sy'n cynnwys diffiniad o “the Ministers” at ddbenion adran 4B, gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adrannau 19(2)(d) a 45(b).

(2) Cafodd y swyddogaeth o dan adran 4B o Ddeddf 1967 mewn perthynas â Chymru ei throsglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i throsglwyddo wedyn o'r corff hwnnw i Weinidogion Cymru: gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999/672 ac Atodlen 1 iddi a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Cafodd y swyddogaeth o dan adran 4B mewn perthynas â pharth Cymru ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(b) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760).

(3) Amnewidiwyd adran 4 gan adran 3 o Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) a'i diwygio gan adran 20 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 1 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992 (p.60), adrannau 4, 196 a 197 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23) ac O.S. 1999/1820. Gweler adran 4(12) i weld y diffiniadau o “relevant British fishing boat” a “foreign fishing boat”. Mewnosodwyd adran 4A gan adran 21 o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 a'i diwygio gan adran 3 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1992, adran 6 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ac O.S. 1999/1820. Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adrannau 4, 4A a 15(3), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, eu throsglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u throsglwyddo wedyn o'r corff hwnnw i Weinidogion Cymru: gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). I'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â pharth Cymru, cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adrannau 4 a 4A o Ddeddf 1967 eu throsglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(b) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760) ar sail gydedol. Cafodd y swyddogaethau hynny eu throsglwyddo ymhellach, ar sail gydedol, mewn perthynas â chychod pysgota Cymreig y tu hwnt i derfyn parth Cymru tua'r môr gan baragraff 2(1) o Atodlen 3A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

---

(1) 1967 c.84; (“the 1967 Act”). section 4B was inserted by section 4 of the Sea Fish (Conservation) Act 1992 (c.60). Section 22(2)(a) of the 1967 Act, which contains a definition of “the Ministers” for the purposes of section 4B, was amended by the Fisheries Act 1981 (c.29), sections 19(2)(d) and 45(b).

(2) The function under section 4B of the 1967 Act in relation to Wales was transferred to the National Assembly for Wales and then transferred from that body to the Welsh Ministers: see article 2(a) of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32). The function under section 4B in relation to the Welsh zone was transferred to the Welsh Ministers by article 4(1)(b) of the Welsh Zone (Boundaries and Transfer of Functions Order 2010 (S.I. 2010/760).

(3) section 4 was substituted by section 3 of the Fishery Limits Act 1976 (c.86) and amended by section 20 of the Fisheries Act 1981 (c.29), section 1 of the Sea Fish (Conservation) Act 1992 (c.60), sections 4, 196 and 197 of the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23) and S.I. 1999/1820. See section 4(12) for the definitions of “relevant British fishing boat” and “foreign fishing boat”. Section 4A was inserted by section 21 of the Fisheries Act 1981 and amended by section 3 of the Sea Fish (Conservation) Act 1992, section 6 of the Marine and Coastal Access Act 2009 and S.I. 1999/1820. The functions of the Ministers under sections 4, 4A, 15(3), so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and then transferred from that body to the Welsh Ministers: see article 2(a) of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order (S.I. 1999/672) and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). So far as exercisable in relation to the Welsh zone, the functions of the Ministers under sections 4 and 4A of the 1967 Act, were transferred to the Welsh Ministers by article 4(1)(b) of the Welsh Zone (Boundaries and Transfer of Functions) Order 2010 (S.I. 2010/760) on a concurrent basis. Those functions were further transferred, on a concurrent basis, in relation to Welsh fishing boats beyond the seaward limit of the Welsh zone by paragraph 2(1) of Schedule 3A to the Government of Wales Act 2006.

- (b) hysbysiad i amrywio, atal neu ddirymu trwydded a ddisgrifir yn is-baragraff (a), gan gynnwys hysbysiad i amrywio, atal neu ddirymu trwydded o'r fath a roddir cyn y diwrnod ymadael.

## Dehongli

### 2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “cwch pysgota Cymreig” (“*Welsh fishing boat*”) yw cwch pysgota—

- (a) sydd wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(1), a
- (b) y mae ei gofnod yn y gofrestr yn pennu porthladd yng Nghymru fel y porthladd y mae'n rhaid trin y cwch fel pe bai'n perthyn iddo;

ystyr “cwch pysgota perthnasol” (“*relevant fishing boat*”) yw—

- (a) cwch pysgota Cymreig, neu
- (b) cwch pysgota nad yw wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Rhan 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995;

mae i “cyfathrebu electronig” yr ystyr a roddir i “electronic communication” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(2);

ystyr “enwebai” (“*nominee*”) yw naill ai—

- (a) unigolyn sy'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig, neu
- (b) corff a gorfforwyd ac sydd â lle busnes yn y Deyrnas Unedig,

a benodir gan berchennog neu siartrwr cwch pysgota perthnasol i dderbyn trwyddedau a hysbysadau ar ran y perchennog neu'r siartrwr;

ystyr “hysbysiad” (“*notice*”) yw hysbysiad o fath a ddisgrifir yn rheoliad 1(2)(b);

ystyr “papur newydd” (“*newspaper*”) yw papur newydd sy'n cylchredeg yn y Deyrnas Unedig, neu mewn unrhyw ran ohoni, ac mae'n cynnwys cyfnodolyn, cylchgrawn neu gyhoeddiad cyfnodol arall; ac

ystyr “trwydded” (“*licence*”) (ac eithrio yn y term “trwyddedau pysgota môr” (“*sea fishing licences*”)) yw trwydded o fath a ddisgrifir yn rheoliad 1(2).

- (b) a notice of variation, suspension or revocation of a licence described in sub-paragraph (a), including a notice of variation, suspension or revocation of such a licence granted before exit day.

## Interpretation

### 2. In these Regulations—

“electronic communication” (“*cyfathrebu electronig*”) has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(1);

“licence” (“*trwydded*”) (except in the term “sea fishing licences” (“*trwyddedau pysgota môr*”)) means a licence of a kind described in regulation 1(2);

“newspaper” (“*papur newydd*”) means a newspaper circulating within, or within any part of, the United Kingdom and includes a journal, magazine or other periodical publication;

“nominee” (“*enwebai*”) means either—

- (a) an individual resident in the United Kingdom, or
- (b) a body incorporated and having a place of business in the United Kingdom,

appointed by the owner or charterer of a relevant fishing boat to receive, on the owner or charterer's behalf, licences and notices;

“notice” (“*hysbysiad*”) means a notice of a kind described in regulation 1(2)(b);

“relevant fishing boat” (“*cwch pysgota perthnasol*”) means—

- (a) a Welsh fishing boat, or
- (b) a fishing boat that is not registered in the United Kingdom under Part 2 of the Merchant Shipping Act 1995<sup>2</sup>;

“Welsh fishing boat” (“*cwch pysgota Cymreig*”) means a fishing boat—

- (a) which is registered in the United Kingdom under Part 2 of the Merchant Shipping Act 1995(2), and
- (b) whose entry in the register specifies a port in Wales as the port to which the boat is to be treated as belonging.

(1) 1995 p.21.

(2) 2000 p.7; diwygiwyd y diffiniad hwnnw gan Ddeddf Cyfathrebu Act 2003 (p.21), adran 406(1) a pharagraff 158 o Atodlen 17.

(1) 2000 c.7; that definition was amended by the Communications Act 2003 (c.21), section 406(1) and paragraph 158 of Schedule 17.

(2) 1995 c.21.

### Cyfathrebu trwyddedau a hysbysiadau

3.—(1) Mae trwydded i gael ei rhoi, ac mae hysbysiad ynglŷn â thrwydded i gael ei roi, drwy eu cyfathrebu i dderbynydd priodol (“P”).

(2) Rhaid i drwydded gael ei chyfathrebu—

- (a) drwy ei throsglwyddo’n bersonol i P;
- (b) drwy ei phostio i P yng nghyfeiriad neu le busnes P;
- (c) drwy ei gadael yng nghyfeiriad neu le busnes P, neu yn nwylo person yno; neu
- (d) yn ddarostyngedig i baragraff (6), drwy ei thrawsyrru i P drwy gyfrwng cyfathrebiad electronig i gyfeiriad y mae P wedi ei bennu yn unol ag is-baragraff (b) o’r paragraff hwnnw.

(3) Rhaid i hysbysiad gael ei weithredu drwy ei gyfathrebu i P—

- (a) mewn unrhyw un neu ragor o’r ffyrdd a bennir ym mharagraff (2);
- (b) drwy ei gyhoeddi ar wefan, y nodir ei chyfeiriad ar y drwydded y mae’r hysbysiad yn ymwneud â hi; neu
- (c) pan fo’r hysbysiad yn hysbysiad cyffredinol, drwy ei gyhoeddi mewn papur newydd.

(4) Rhaid i hysbysiad cyffredinol—

- (a) darparu ei fod yn gymwys i bob trwydded pysgota môr; neu
- (b) pennu’r trwyddedau pysgota môr hynny y mae’n ymwneud â hwy drwy gyfeirio at rywogaeth, ardal, dull, neu fath o drwydded, neu at unrhyw gyfuniad o’r materion hyn.

(5) Rhaid i hysbysiad heblaw hysbysiad cyffredinol bennu’r trwyddedau y mae’n ymwneud â hwy drwy gyfeirio at enw, llythrennau a rhif porthladd pob llestr y rhoddwyd trwydded o’r fath iddo.

(6) Dim ond os bodlonir yr amodau a ganlyn y caniateir cyfathrebu trwydded neu hysbysiad drwy gyfrwng cyfathrebiad electronig fel y’i disgrifir ym mharagraff (2)(d)—

- (a) bod defnyddio cyfathrebiad electronig yn golygu bod yr wybodaeth a gynhwysir yn y drwydded neu’r hysbysiad ar gael i P ym mhob agwedd berthnasol fel y byddai’n ymddangos mewn trwydded neu hysbysiad a roddid ar ffurf brintiedig; a
- (b) bod P wedi pennu cyfeiriad er mwyn derbyn cyfathrebiadau o’r fath.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr “derbynydd priodol” yw—

- (a) mewn perthynas â thrwydded neu hysbysiad sy’n ymwneud â chwch pysgota Cymreig—

### Communication of licences and notices

3.—(1) A licence is to be granted, and a notice relating to a licence is to be given, by communicating it to an appropriate recipient (“P”).

(2) A licence must be communicated by—

- (a) personally delivering it to P;
- (b) posting it to P at P’s address or place of business;
- (c) leaving it at P’s address or place of business, or in the hands of a person there; or
- (d) subject to paragraph (6), transmitting it to P by means of an electronic communication to an address which the appropriate recipient has specified in accordance with sub-paragraph (b) of that paragraph.

(3) A notice must be effected by communicating it to P—

- (a) in any of the ways specified in paragraph (2);
- (b) by publishing it on a website, the address of which is indicated on the licence to which the notice relates; or
- (c) where the notice is a general notice, publishing it in a newspaper.

(4) A general notice must—

- (a) provide that it applies to all sea fishing licences; or
- (b) specify those sea fishing licences to which it relates by reference to species, area, method, or licence type, or any combination of those matters.

(5) A notice other than a general notice must specify the licences to which it relates by reference to the name, port letters and number of each vessel in respect of which such a licence was granted.

(6) A licence or a notice may be communicated by means of an electronic communication as described in paragraph (2)(d) only if the following conditions are satisfied—

- (a) the use of an electronic communication results in the information contained in the licence or notice being available to P in all material respects as it would appear in a licence or notice given in printed form; and
- (b) P has specified an address for the purpose of receiving such communications.

(7) In this regulation “an appropriate recipient” means—

- (a) In relation to a licence or notice relating to a Welsh fishing boat—

- (i) perchennog neu siartrwr y cwch pysgota, neu
- (ii) enwebai i'r perchennog neu'r siartrwr hwnnw; a
- (b) mewn perthynas â thrwydded neu hysbysiad sy'n ymwneud ag unrhyw gwch pysgota arall, perchennog neu siartrwr y cwch pysgota.

(8) Yn y rheoliad hwn, ystyr “hysbysiad cyffredinol” yw hysbysiad sy'n ymwneud—

- (a) â phob trwydded pysgota môr; neu
- (b) â phob trwydded pysgota môr sy'n awdurdodi pysgota—
  - (i) am un neu ragor o ddisgrifiadau penodedig o bysgod môr,
  - (ii) mewn un neu ragor o ardaloedd penodedig,
  - (iii) drwy ddull neu ddulliau penodedig,
  - (iv) yn ôl y math o drwydded, neu
  - (v) drwy gyfeirio at gyfuniad o ddau neu ragor o'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (i) i (iv).

(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr “trwyddedau pysgota môr” yw trwyddedau o dan adran 4 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967.

#### **Yr amser y mae trwyddedau wedi eu trosglwyddo a hysbysadau wedi eu rhoi**

4.—(1) Trinnir trwydded neu hysbysiad a gyfathrebir yn bersonol fel pe bai wedi ei throsglwyddo neu wedi ei roi yn union ar ôl eu cyfathrebu.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), trinnir trwydded neu hysbysiad a gyfathrebir drwy'r post fel pe bai wedi ei throsglwyddo neu wedi ei roi 48 awr ar ôl diwedd y diwrnod y cawsant eu postio.

(3) Trinnir trwydded neu hysbysiad a gyfathrebir drwy eu gadael yng nghyfeiriad neu le busnes perchennog, siartrwr neu enwebai neu yn nwylo person yno, fel pe bai wedi ei throsglwyddo neu wedi ei roi 24 awr ar ôl yr amser y cawsant eu gadael.

(4) Trinnir trwydded neu hysbysiad a gyfathrebir drwy gyfathrebiad electronig fel y'i disgrifir yn rheoliad 3(2)(d) fel pe bai wedi ei throsglwyddo neu wedi ei roi 24 awr ar ôl amser y trawsyriad hwnnw.

(5) Trinnir hysbysiad a gyfathrebir drwy ei gyhoeddi ar wefan fel pe bai wedi ei roi yn union ar ôl ei gyhoeddi.

(6) Trinnir hysbysiad a gyfathrebir drwy ei gyhoeddi mewn papur newydd fel pe bai wedi ei roi ar ddiwedd y diwrnod y'i cyhoeddir.

- (i) the owner or charterer of the fishing boat, or
- (ii) a nominee of that owner or charterer; and
- (b) in relation to a licence or notice relating to any other fishing boat, the owner or charterer of the fishing boat

(8) In this regulation a “general notice” means a notice which relates to—

- (a) all sea fishing licences; or
- (b) all sea fishing licences authorising fishing—
  - (i) for one or more specified descriptions of sea fish,
  - (ii) in one or more specified areas,
  - (iii) by a specified method or methods,
  - (iv) by licence type, or
  - (v) by reference to a combination of two or more of the matters referred to in paragraphs (i) to (iv).

(9) In this regulation “sea fishing licences” means licences under section 4 of the Sea Fish (Conservation) Act 1967.

#### **Time at which licences are delivered and notices are given**

4.—(1) A licence or a notice communicated personally is treated as delivered or given immediately it is communicated.

(2) Subject to paragraph (7), a licence or a notice communicated by post is treated as delivered or given 48 hours after the end of the day on which it was posted.

(3) A licence or a notice communicated by leaving it at the address or place of business of an owner, charterer or nominee or in the hands of a person there, is treated as delivered or given 24 hours after the time at which it was left.

(4) A licence or a notice communicated by an electronic communication as described in regulation 3(2)(d) is treated as delivered or given 24 hours after the time of that transmission.

(5) A notice communicated by publication on a website is treated as given immediately it is published.

(6) A notice communicated by publication in a newspaper is treated as given at the end of the day on which it is published.

- (7) Pan fo trwydded neu hysbysiad—
- (a) yn cael eu cyfathrebu drwy'r post, a
  - (b) yn cael eu trin fel pe baent wedi eu trosglwyddo neu wedi eu rhoi ar ddydd Sul neu ar ŵyl banc (o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1)),

trinnir y drwydded fel pe bai wedi ei throsglwyddo a thrinnir yr hysbysiad fel pe bai wedi ei roi ar ddiwedd y diwrnod nesaf nad yw'n ddydd Sul neu ŵyl banc.

### **Yr amser y mae trwyddedau a hysbysiadau'n cael effaith**

5. Yn ddarostyngedig i reoliad 6—
- (a) mae trwydded yn cael effaith ar yr amser y'i trinnir fel pe bai wedi ei throsglwyddo yn unol â rheoliad 4;
  - (b) mae hysbysiad a gyfathrebir yn unol â rheoliad 3(3)(a) yn cael effaith 24 awr ar ôl yr amser y'i trinnir fel pe bai wedi ei roi yn unol â rheoliad 4;
  - (c) mae hysbysiad a gyfathrebir yn unol â rheoliad 3(3)(b) (cyhoeddi ar wefan) yn cael effaith 24 awr ar ôl yr amser y'i trinnir fel pe bai wedi ei roi yn unol â rheoliad 4(5); a
  - (d) mae hysbysiad a gyfathrebir yn unol â rheoliad 3(3)(c) (cyhoeddi mewn papur newydd) yn cael effaith 48 awr ar ôl yr amser y'i trinnir fel pe bai wedi ei roi yn unol â rheoliad 4(6).

### **Darpariaeth arbennig ar gyfer trwyddedau a hysbysiadau penodol**

6.—(1) Mae trwydded neu hysbysiad a gyfathrebir drwy fwy nag un o'r dulliau a bennir yn rheoliad 3 yn cael effaith ar y cynharaf o'r amserau sy'n cyfateb i bob dull a bennir yn rheoliad 5.

(2) Mae trwydded neu hysbysiad sy'n honni ar eu hwyneb eu bod yn cael effaith ar amser sy'n hwyrach na'r amser pryd y'u trinnir fel pe baent yn cael effaith yn unol â rheoliad 5 yn cael effaith ar yr amser a ddangosir ar eu hwyneb.

- (7) Where a licence or a notice—
- (a) is communicated by post, and
  - (b) is treated as delivered or given on a Sunday or on a bank holiday (within the meaning of the Banking and Financial Dealings Act 1971(1)),

the licence or notice is treated as delivered or given at the end of the next day which is not a Sunday or a bank holiday.

### **Time at which licences and notices have effect**

5. Subject to regulation 6—
- (a) a licence has effect at the time it is treated as delivered in accordance with regulation 4;
  - (b) a notice communicated in accordance with regulation 3(3)(a) has effect 24 hours after the time it is treated as given in accordance with regulation 4;
  - (c) a notice communicated in accordance with regulation 3(3)(b) (publication on website) has effect 24 hours after the time it is treated as given in accordance with regulation 4(5); and
  - (d) a notice communicated in accordance with regulation 3(3)(c) (publication in a newspaper) has effect 48 hours after the time it is treated as given in accordance with regulation 4(6).

### **Special provision for certain licences and notices**

6.—(1) A licence or a notice communicated by more than one of the methods specified in regulation 3 has effect at the earliest of the times corresponding to each such method specified in regulation 5.

(2) A licence or a notice which purports on its face to have effect at a time later than that at which it is treated as having effect in accordance with regulation 5 has effect at the time shown on its face.

(1) 1971 p.80; gweler adran 1 ac Atodlen 1.

(1) 1971 c.80; see section 1 and Schedule 1.

**Dirymu Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994**

7. Mae Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994(1) wedi eu dirymu o ran Cymru, parth Cymru a chychod pysgota Cymreig lle bynnag y bônt.

**Revocation of the Sea Fishing (Licences and Notices) Regulations 1994**

7. The Sea Fishing (Licences and Notices) Regulations 1994(1) are revoked in relation to Wales, the Welsh zone and Welsh fishing boats wherever they may be.

*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,  
un o Weinidogion Cymru  
6 Mawrth 2019

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,  
one of the Welsh Ministers  
6 March 2019

---

©©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) O.S. 1994/2813, a ddirymwyd o ran yr Alban gan S.S.I. 2011/70.

---

(1) S.I. 1994/2813, which was revoked in relation to Scotland by S.S.I. 2011/70.

£6.90

W201903071003 03/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/500>

ISBN 978-0-348-20388-2



9 780348 203882